NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Mewnosod diffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy isgroenol ar gyfer atal marwolaeth gardiaidd sydyn

20 Rhagfyr 2017

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer atal marwolaeth gardiaidd sydyn ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Dyfais a gaiff ei gosod o dan groen y frest yw diffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy isgroenol (ICD). Mae'n canfod ac yn trin curiadau calon cyflym a elwir yn tachyarrhythmias. Mae'r ddyfais yn defnyddio siociau trydan er mwyn helpu i reoli arhythmiau sy'n bygwth bywyd a all achosi marwolaeth gardiaidd sydyn.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2754-8

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights